NSPCC

# Rho dy farn

## BETH I'W WNEUD OS OES GEN TI RYWBETH I'W DDWEUD

Rydyn ni'n addo gwneud ein gorau glas a gwrando ar beth sydd gen ti i'w ddweud. Cysyllta â ni os wyt ti eisiau sôn am dy brofiad gyda'r NSPCC.

### Oes gen ti syniad?

Mae clywed beth sydd gen ti i'w ddweud yn ein helpu ni i wella er mwyn i blant a phobl ifanc gael y profiad gorau posibl gyda'r NSPCC. Os oes gen ti syniad, gan gynnwys dweud sut gallen i wella ein gwasanaethau, cofia ddweud. Bydden ni wrth ein bodd yn clywed.

### Rhywbeth o'i le?

Mae'n ddrwg gennym ni os ydyn ni wedi gwneud rhywbeth sy'n gwneud i ti deimlo'n anhapus am yr NSPCC. Yr hyn sy'n bwysig nawr yw gwneud yn siŵr fod dy gŵyn yn cael ei chlywed er mwyn i ni gywiro'r sefyllfa.

### Sut i ddweud dy ddweud

Cysyllta drwy'r manylion cyswllt ar y dde. Neu, os wyt ti'n arfer delio â rhywun penodol yn yr NSPCC, siarada efo nhw. Os wyt ti am gael rywun i dy helpu i wneud yn siŵr bod dy lais yn cael ei glywed, gall y person hwnnw gysylltu â ni ar dy ran.

Cofia ddweud pwy neu beth sydd dan sylw. A chofia ddweud sut wyt ti am i ni gysylltu â ti. Gallwn ni anfon neges e-bost, ffonio neu ysgrifennu atat ti – p'run bynnag sydd orau gen ti.

### Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?

Byddwn ni'n ceisio delio â dy gŵyn cyn gynted ag y gallwn ni. Weithiau, rydyn ni'n gallu gwneud hynny'n syth drwy siarad efo ti am y peth. Weithiau, rhaid i ni siarad efo pobl eraill i weld beth sydd wedi mynd o'i le.

**Cwyn**

- Bydd NSPCC yn cydnabod unrhyw gŵyn ysgrifenedig sy'n ein cyrraedd cyn pen pum niwrnod gwaith.
- Rydyn ni'n ceisio ateb cŵyn yn llawn cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ein cyrraedd.
- Os yw achwynydd yn dymuno apelio (os bodlonir y meini prawf perthnasol), rhaid iddynt wneud hynny yn ysgrifenedig cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl cael canlyniad gan NSPCC.

**Apelio**

- Bydd NSPCC yn cydnabod dy gŵyn cyn pen pum diwrnod gwaith.
- Mae NSPCC yn ceisio darparu ateb llawn a therfynol i apêl cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r apêl gyrraedd.

### Angen cymorth?

Os nad wyt ti'n deall rhywbeth, gelli di siarad gydag oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo i dy helpu efo dy gŵyn. Mam neu dad efallai, neu athro neu athrawes neu rywun yn NSPCC neu Childline.

## SUT MAE CYSYLLTU Â NI

**Canmoliaeth, sylwadau a chwynion**

**NSPCC Supporter Care**
North West Regional Office
Quays Reach
14 Carolina Way
Salford
M50 2ZY

**020 7825 2505**
(9am i 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener)
**supportercare@nspcc.org.uk**

**Cwynion am Brif Swyddog Gweithredol neu un o Ymddiriedolwyr NSPCC YN UNIG**

**Pennaeth Llywodraethu**
NSPCC
Weston House
42 Curtain Road
Llundain
EC2A 3NH

**020 7825 2500**
(9am i 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener)
**governance@nspcc.org.uk**

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO

©NSPCC 2018. Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 216401 ac yn yr Alban SC037717. J20181172.